**Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**

**Cofnodion**
**Fforwm Derbyn Pen-y-bont ar Ogwr**
**yn y Swyddfeydd Dinesig ar 14 Hydref 2019**

**Cynrychiolwyr yr ALl**

| | |
|---|---|
| Mr R Davies (RD) Y Cadeirydd | Rheolwr Grŵp Busnes, Strategaeth a Pherfformiad |
| Mrs D Davies (DD) | Prif Swyddog, Gwybodaeth a Chymorth Dysgwyr |
| Cyng. Mr C Smith (CyngCS) | |

**Cynrychiolwyr Ysgolion**

| | |
|---|---|
| Mr John Tarran (JT) Is-gadeirydd | Pennaeth, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru yr Archddiacon John Lewis |
| Mrs Sharon Jayne (SJ) | Pennaeth, Ysgol Gymraeg Bro Ogwr |
| Mr Jeremy Evans (JE) | Pennaeth, Ysgol Heronsbridge |
| Mrs Kathryn John (KJ) | Pennaeth, Ysgol Gynradd Bracla |

**Cynrychiolydd y Llywodraethwyr**

| | |
|---|---|
| Mr W Bond (WB) | Ysgol Gynradd Croesty |

Cofnodion Fforwm Derbyn Pen-y-bont ar Ogwr 2019

**Hefyd yn bresennol yn y cyfarfod**

| | |
|---|---|
| Ms C Christy (CC) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |

1. **Ymddiheuriadau**

   Cafwyd a derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth AK ac AS.

2. **Ethol cadeirydd ac is-gadeirydd ar gyfer blwyddyn academaidd 2019-2020.**

   Cynigiwyd RD a JT fel y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd. Cymeradwywyd y cynnig gan holl aelodau'r fforwm a oedd yn bresennol.

3. **Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Ebrill 2019**

   Cymeradwywyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gywir.

4. **Materion yn codi**

   Esboniodd DD wrth yr aelodau sut yr oedd capasiti yn cael ei fesur yn ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr drwy ddefnyddio taenlen capasiti (wedi'i dangos ar sgrin i'r aelodau). Gellir defnyddio'r daenlen i dynnu sylw at y mannau dan bwysau, er enghraifft rhai grwpiau blwyddyn neu ardaloedd.

   Cododd KJ ymholiad ynghylch nifer y derbyniadau meithrin ar gyfer Ysgol Gynradd Bracla, sef 87. Dywedodd DD fod y capasiti meithrin a nifer y derbyniadau a gyhoeddwyd (NDG) yn wahanol. Cyfanswm y capasiti meithrin ar sail 2.3m² fesul disgybl oed meithrin yw 87; y NDG ar gyfer disgyblion oed

statudol yw 45. Yn unol â hynny, bydd yr awdurdod lleol yn cynnig 45 o leoedd meithrin amser llawn, a bydd gweddill y capasiti meithrin yn cael ei ddefnyddio ar gyfer lleoedd meithrin rhan-amser.

Dywedodd RD wrth yr aelodau am y gwaith sy'n cael ei arwain gan y Tîm Moderneiddio Ysgolion, sef archwilio sut mae ysgolion yn defnyddio eu gofod. Esboniodd RD fod y cyfrifiad capasiti mandadol yn ystyried ardaloedd sydd wedi'u dynodi'n ystafelloedd dosbarth er mwyn pennu lleoedd disgyblion, ac nad oedd yn cynnwys ardaloedd ategol, fel llyfrgelloedd neu ystafelloedd TGCh. Ar hyn o bryd, nid yw yr un ysgol ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn gwbl lawn, ond ceir pwysau mewn rhai ardaloedd ac mewn rhai grwpiau blwyddyn. Dywedodd RD ei bod hi'n anffodus bod datblygwyr stadau tai fel pe baent yn awgrymu wrth ddarpar brynwyr tai nad oes unrhyw broblemau o ran lleoedd mewn ysgolion.

Holodd JT a oedd ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion cyfrwng Cymraeg wedi'u cynnwys wrth ystyried cyfanswm y capasiti ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Dywedodd RD nad yw'r awdurdod lleol yn ceisio perswadio rhieni i dderbyn ysgolion penodol, ond ei fod yn cyflwyno'r holl ffeithiau a'r opsiynau posibl iddynt. Os bydd lle mewn ysgol a ddewiswyd wedi'i wrthod, bydd yr awdurdod lleol fel arfer yn cynnig yr ysgol nesaf agosaf y mae'n awdurdod derbyn ar ei chyfer. Fodd bynnag, os bydd rhieni/gofalwyr yn nodi eu bod yn ffafrio addysg ffydd neu addysg cyfrwng Cymraeg, bydd yr awdurdod lleol yn cynnig gwybodaeth am yr opsiynau hynny. Mae'n ddyletswydd statudol ar yr awdurdod lleol i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg ymhlith rhieni.

Dywedodd DD y byddai'r awdurdod lleol yn gofyn am ddiweddariad gan ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ynghylch eu capasiti. Dywedodd RD, pe bai NDG ysgol wirfoddol a gynorthwyir wedi codi neu ostwng, y byddai angen i'r awdurdod lleol ddeall ac ystyried y rhesymau.

Dywedodd CC fod awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf yn profi pwysau o ran capasiti.

Tynnodd JT KJ ac RD fod materion capasiti yn cael eu codi a'u trafod yn weddol fynych yng nghyfarfodydd Tîm Pen-y-bont ar Ogwr.

Tynnodd DD sylw at y ffaith fod rhieni'n aml yn dweud wrth yr awdurdod lleol fod ysgol wedi gwarantu lle i'w plentyn tra'r oedd y teulu yn ymweld â'r ysgol, neu fod yr ysgol wedi nodi 'na fyddai unrhyw broblem' yn sicrhau lle. Mewn achosion o'r fath, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol holi'r ysgol ynghylch natur unrhyw sylwadau a wnaed. Roedd holl gynrychiolwyr yr ysgolion a oedd yn y cyfarfod o'r farn nad oedd honiadau o'r fath gan rieni/gofalwyr yn gynrychioliadol o'r sylwadau cyffredinol a wneir gan ysgolion, ac mai'r arfer yw dweud wrth rieni/gofalwyr am gysylltu â'r awdurdod lleol am wybodaeth am leoedd mewn ysgolion, a phenderfyniadau ynghylch y lleoedd hynny.

**5. Y diweddaraf am dderbyniadau yn ystod blwyddyn academaidd 2018-2019 a chylchoedd derbyn Medi 2019**

Darparodd DD yr wybodaeth ganlynol:

Derbyn

- Cafwyd 1,122 o geisiadau ar amser a 304 o geisiadau hwyr.
- Esboniodd DD fod y dull o ymdrin â cheisiadau hwyr wedi newid; yn fras, ystyrir yr holl geisiadau sy'n cyrraedd ar amser erbyn y dyddiad cynnig cenedlaethol, ac ystyrir yr holl geisiadau hwyr yn y drefn y cânt eu derbyn, ar ôl y dyddiad cynnig cenedlaethol.
- Gwrthodwyd 20 o geisiadau derbyn; roedd 50% o'r rhain yn geisiadau ar gyfer Ysgol Gynradd Coety.

Yr Adran Iau, Blwyddyn 3

- Tynnodd DD sylw at y ffaith fod mwy wedi gwneud cais am le yn Ysgol Iau Llangewydd na nifer y lleoedd a oedd ar gael, a hynny am y tro cyntaf erioed.
- NDG Ysgol Iau Llangewydd yw 90, ond NDG Ysgolion Babanod Cefn Glas a Bryntirion gyda'i gilydd yw 106.
- Cafwyd cyfanswm o 98 o geisiadau - 85 ohonynt ar amser ac 14 yn hwyr.
- Gwrthodwyd 9 cais. Apeliwyd yn erbyn pob un o'r penderfyniadau; Cadarnhawyd 1 yng Ngham 2, ar sail amgylchiadau'r plentyn.
- Esboniodd DD fod ymchwiliad wedi'i gynnal i gynnydd yn NDG Ysgol Iau Llangewydd; fodd bynnag, mae'r NDG o 90 yn gywir ar gyfer yr ysgol. Ar sail y niferoedd cyfredol yn Ysgolion Babanod Cefn Glas a Bryntirion, ni ragwelir y bydd y broblem hon yn codi eto yn y blynyddoedd nesaf.
- Gofynnodd JT faint o ddisgyblion o fewn y dalgylch a gafodd eu gwrthod. Esboniodd DD fod pob un o'r 9 a gafodd eu gwrthod o fewn y dalgylch, ond bod yr holl geisiadau wedi cyrraedd yn hwyr; pe bai'r ceisiadau wedi'u cyflwyno ar amser, byddai pawb wedi cael lle.

Rhoddodd DD wybodaeth am yr ymdrechion a wnaed i hysbysu rhieni ynghylch dyddiadau cau.

Uwchradd

- Cafwyd 1,527 o geisiadau - 1,265 ohonynt ar amser a 266 yn hwyr. Tynnodd DD sylw at y ffaith bod cyfran fawr o geisiadau hwyr wedi dod i law gryn amser ar ôl y dyddiad cau.
- Gwrthodwyd 5 cais - pob un ohonynt yn geisiadau am le yn Ysgol Gyfun Bryntirion. Fodd bynnag, ar ôl y dyddiad cynnig, dywedodd rhai rheini/gofalwyr wrthym eu bod yn derbyn lleoedd yn Ysgol Uwchradd Gatholig yr Archesgob McGrath, felly roedd modd i'r awdurdod lleol gynnig y lleoedd hynny i ddisgyblion a wrthodwyd cyn hynny.

Cafwyd trafodaeth ynghylch cydgysylltu derbyniadau ag ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, a dywedodd RD fod pryder wedi'i godi, a fyddai'n golygu llai o ymgynghori yn y dyfodol.

Dywedodd JE wrth yr aelodau fod Estyn yn tynnu dyfarniadau ysgolion yn ôl y flwyddyn nesaf. Efallai y bydd llai o rieni yn dewis ysgolion a aseswyd yn flaenorol gan Estyn yn ysgolion 'ardderchog'.

Meithrin Amser Llawn

- Cafwyd 1,340 o geisiadau - 1,127 ohonynt ar amser a 213 yn hwyr.
- Gwrthodwyd 26 cais, yr oedd 18 ohonynt yn geisiadau ar gyfer Ysgol Gynradd Coety.

Ceisiadau derbyn/trosglwyddo yn ystod y flwyddyn

- Yn 2018-2019, cafwyd 1,227 o geisiadau, ac ni symudwyd ymlaen â 293 ohonynt.
- Ceisiadau derbyn/trosglwyddo yn ystod y flwyddyn o'r tu allan i'r sir oedd i gyfrif am 47.84% o'r cyfanswm uwchradd; roedd y gyfran ar gyfer ysgolion cynradd yn cael ei chyfrifo.

Gofynnodd JT a yw'r awdurdod lleol yn gofyn i ymgeiswyr am reswm dros dderbyn/drosglwyddo yn ystod y flwyddyn, gan ddweud nad oedd rhieni fel arfer yn siarad ag ef cyn gwneud cais. Esboniodd DD fod y cwestiwn yn ymddangos ar y ffurflen gais; fodd bynnag, mae'n anodd gorfodi ymgeiswyr i ateb y cwestiwn ar gopi caled o'r ffurflen. Dywedodd DD y bydd yn adran hanfodol ar y ffurflen ar-lein a ddefnyddir yn y dyfodol.

Apeliadau Derbyn

- Mae nifer yr apeliadau wedi cynyddu'n sylweddol.
- Cafwyd 66 o apeliadau ar gyfer blwyddyn academaidd 2018-19, ac o'r rheiny cefnogwyd 15 gan baneli apêl.
- O ganlyniad i benderfyniadau paneli apêl, dywedodd DD fod un grŵp blwyddyn yn Ysgol Gynradd Pencoed bellach yn llawer mwy na'r NDG.

**6. Paratoi am ddyraniadau meithrin rhan-amser mis Ionawr ac Ebrill 2020.**

Dywedodd DD y byddai lleoedd meithrin rhan-amser yn cael eu cynnig yn wythnos gyntaf mis Tachwedd 2019. Esboniodd DD y broses ar gyfer dyrannu lleoedd rhan-amser, ac y byddai trefniadau priodol ar waith i ymgynghori â phenaethiaid. .

**7. Drafft Prosbectws Dechrau'r Ysgol 2020-2021**

Dywedodd DD fod drafft y prosbectws wedi'i seilio ar y polisi, ond yn defnyddio iaith fwy cyfeillgar i rieni/gofalwyr.

Gofynnodd DD i'r aelodau a fyddent yn hoffi gweld y prosbectws cyn iddo gael ei gyhoeddi, a chytunodd yr holl aelodau nad oedd angen i FfDP gytuno arno cyn ei gyhoeddi.

Cyfeiriodd RD at y gofynion deddfwriaethol cyfredol yn gysylltiedig â chyhoeddi a darparu'r prosbectws. Gofynnodd RD am sylwadau ynghylch safbwynt RhCT, a dywedodd CC mai safbwynt RhCT oedd y byddai Llywodraeth Cymru yn newid y gofyniad i gyhoeddi a dosbarthu copïau caled o'r prosbectws oherwydd goblygiadau o ran costau.

## 8. Drafft o Bolisi Derbyn Ysgolion 2021-2022

Esboniodd DD fod y polisi'n cael ei ddrafftio. Ni chynigir unrhyw newidiadau o bwys, ond bydd rhai adrannau'n cael eu hymestyn, a rhai agweddau ychwanegol o fewn y Cod Derbyn i Ysgolion yn cael eu cynnwys. Bydd y polisi drafft yn cael ei ddosbarthu er mwyn cael sylwadau ar ôl ei gwblhau.

## 9. Paratoi am gylchoedd derbyn Medi 2020.

Dywedodd DD wrth yr aelodau fod llythyrau Blwyddyn 6 i'r rhieni wedi cael eu dosbarthu i'r ysgolion. Esboniodd DD fod y ffurflen ar-lein wedi cael ei hail-ddatblygu ar ôl adborth a gafwyd y llynedd.

## 10. Yr angen am geisiadau derbyn

Dywedodd DD ei fod wedi dod i sylw'r awdurdod lleol fod rhai plant yn cael eu cynnwys ar gofrestrau ysgolion, gan staff ysgol, er nad oedd y rhieni/gofalwyr erioed wedi cyflwyno cais i'r awdurdod lleol. Mewn un ysgol, yr oedd saith disgybl o'r fath yn y dosbarth meithrin amser llawn. Mae DD wedi amlygu bod yn rhaid i staff ysgol holi'r awdurdod lleol i wirio bod yr awdurdod lleol wedi derbyn cais a chynnig lle, yn hytrach na derbyn honiad gan rieni/gofalwr fod hynny'n wir. Dywedodd RD wrth yr aelodau fod y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd wedi pwysleisio'r neges hon ymhlith yr ysgolion. Esboniodd RD y gall caniatáu i blant ddechrau heb gais effeithio ar y broses apêl ar gyfer derbyniadau.

Esboniodd RD fod y cod statudol yn nodi os bydd unigolyn ag awdurdod, er enghraifft, Pennaeth, yn caniatáu i blentyn ddechrau'r ysgol, na all yr awdurdod lleol dynnu'r disgybl o'r ysgol honno.

## 11. Derbyniadau ysgol ar-lein

Tynnodd RD sylw at fanteision y system a diolchodd DD am ei gwaith yn sicrhau bod y system yn cael ei gweithredu'n llwyddiannus.

## 12. Dyddiadau cynnig

Holodd JT beth oedd y trefniadau ar gyfer y dyddiad cynnig derbyn cenedlaethol, oherwydd roedd y dyddiad hwnnw yn ystod y gwyliau Pasg y flwyddyn gynt. Cadarnhawyd mai'r dyddiad oedd 16 Ebrill 2020.

Esboniodd JT y byddai'r ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ar wyliau, ac y byddai angen trefnu i staff ddod i mewn i bostio'r llythyrau, neu byddai angen postio'r llythyrau o adref.

Dywedodd DD ei bod yn ystyried a fydd modd anfon llythyrau hysbysu yn y dyfodol drwy Fy Nghyfrif. Byddai hyn yn ei gwneud hi'n haws cydymffurfio â'r dyddiad cynnig, gan na ellir bod yn sicr y bydd llythyrau a anfonir drwy'r post yn cyrraedd ar ddyddiad y cynnig.

## 13. Derbyn i Ysgol Arbennig Heronsbridge

Dywedodd JE wrth yr aelodau fod unrhyw dderbyniadau i Ysgol Arbennig Heronsbridge yn cael eu prosesu drwy Kathryn Morgan, Prif Seicolegydd Addysg. Nododd JE ei fod yn derbyn galwadau ffôn a negeseuon e-bost gan rieni a chan gydgysylltwyr anghenion dysgu ychwanegol ysgolion ynghylch derbyn plant i Heronsbridge. Dywedir wrth rieni mewn adolygiadau fod angen darparu ysgol arbennig i'w plentyn, felly maent yn disgwyl derbyn hynny.

Esboniodd DD y dylai fod gan yr holl ddisgyblion yn Ysgol Heronsbridge ddatganiad o anghenion addysgol arbennig, ond nid yw'n glir a yw hynny'n wir ar hyn o bryd.

## 14. Y Diweddaraf ynghylch adolygu'r Cod Derbyn i Ysgolion

Hysbysodd RD yr aelodau fod Llywodraeth Cymru yn cynnig addasu'r Cod Derbyn i Ysgolion. Nid oes unrhyw gynigion drafft wedi'u cyhoeddi eto.

Cyfeiriodd RD at ohebiaeth LlC ynghylch derbyn i'r chweched dosbarth, a gwyddys y gallai hyn fod ymhlith y cynigion. Mae LlC yn herio awdurdodau lleol ynghylch eu harfer o ganiatáu ysgolion i reoli eu derbyniadau chweched dosbarth eu hunain. Ni wyddys am unrhyw awdurdod sydd o blaid newid yr arfer honno. Dywedodd RD wrth yr aelodau nad oes gan yr awdurdod lleol adnoddau i ymdrin â derbyniadau chweched dosbarth na'r gallu i benderfynu ynghylch pwy ddylai gael lle, lle bo perfformiad wedi'i gynnwys yn rhan o'r meini prawf.

## 15. Polisi Teithio Dysgwyr - ymgynghoriad

Dywedodd RD wrth yr aelodau fod yr ymgynghoriad ar Drefniadau Teithio Dysgwyr yn agor heddiw am 12 wythnos. Amlinellodd RD rai o'r cynigion:

- Newid pellteroedd statudol (2 filltir ar gyfer cynradd / 3 milltir ar gyfer uwchradd)
- Cael gwared â thrafnidiaeth y chweched dosbarth, ar wahân i addysg ffydd ac addysg cyfrwng Cymraeg.
- Cael gwared â hebryngwyr ar drafnidiaeth lle ceir 8 sedd neu lai, ac eithrio os bydd gan ddisgyblion ADY/bryderon meddygol.

Esboniodd RD rôl hebryngwyr - eu pwrpas yw hysbysu'r gyrrwr ynghylch unrhyw bryderon neu faterion diogelwch, yn hytrach na rhoi cymorth neu ymyrraeth ar gyfer y disgyblion. Bydd y Gwasanaeth Cynhwysiant yn chwarae rhan wrth benderfynu a oes angen hebryngwr os nodwyd bod gan ddisgybl ADY.

Esboniodd RD y rhesymau dros gynnig cael gwared â thrafnidiaeth meithrin ar gyfer pob ysgol, gan gynnwys ysgolion ffydd a chyfrwng Cymraeg. Dywedodd RD fod pryderon ynghylch diogelwch disgyblion iau a llai. Roedd nifer o bryderon wedi'u codi gan rieni, fel plant yn syrthio i gysgu wrth gael eu cludo. Dywedodd RD wrth yr aelodau fod Pen-y-bont ar Ogwr ymhlith yr ychydig awdurdodau lleol sydd yn rhoi cludiant i ddisgyblion meithrin.

**16. Unrhyw fater arall**

Ni chodwyd unrhyw faterion ychwanegol.